



PECYN ADNODDAU ADDYSGOL GAN CATRIN JONES HUGHES

CYNNWYS

TUDALEN

CYFLWYNIAD

3

Y STORI

4

CEFNDIR Y NOFEL

6

ISLWYN FFOWC ELIS

7

GWEITHGAREDDAU

8

CWESTIYNAU ARHOLIAD

17

WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD

CYFLWYNIAD

Croeso i Becyn Adnoddau Addysg sydd wedi'i ddylunio yn bennaf ar gyfer athrawon Drama a'r Gymraeg a phobl ifanc fu'n gwyllo *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Mae 'profi amrywiaeth o berfformiadau' proffesiynol yn hanfodol i gyfoethogi'r elfen synoptig ac am helpu disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi:

- technegau/ confensiynau perfformio/ arddull
- datblygiad cymeriad(au) a pherthynas pobl â'i gilydd
- plot a themâu
- Sut mae'r gofod perfformio'n cael ei gynllunio i gyfleu ystyr
- Sut mae'r dyluniad yn cael ei gynllunio er mwyn cyfleu ystyr e.e. cerddoriaeth a sain, goleuo, gwisgoedd a cholur
- Hanfodion trafodaeth, mynegi barn a chyflwyno ymateb personol

Mae'r adnodd yn cynnwys gweithgareddau a thasgau, awgrymiadau trafodaeth ac enghreifftiau o gwestiynau arholiad.

GWYBODAETH BELLACH AC YMATEB I'R CYNHYRCHIAD

Er mwyn cyfoethogi'ch gwaith ystyriwch y ffynonellau canlynol:

Radio Wales Arts Show

Golwg Rhifyn 39, Rhif 3, Medi 176, 2026 : *GARMON a drama'r Iwtopia Cymraeg*.

Barddas

Barn : [Creu byd ar lwyfan – Barn](#) – erthygl am ddylunio Elin Steele

www.youtube.com/@FrânWen

CRYNODEB O'R DDRAMA/DATGANIAD CYCHWYNNOL I'R WASG

"Ail-ddychmygiad beiddgar o glasur Islwyn Ffowc Elis"

Mae o wedi gweld y dyfodol.

Dwywaith.

Mae Ifan yn byw ar yr ymyl. Yn cadw pawb hyd braich, yn yfed yn galed, yn chwerthin yn uwch na neb arall. Dydy o byth yn edrych yn ôl. Ond mae un person yn aros yn ei feddwl – Mair.

Wrth i storm wleidyddol godi yng Ngogledd Cymru, mae Ifan yn cael ei daflu ymlaen ddegawdau mewn amser. Dwywaith.

Mae un dyfodol yn cynnig Cymru rydd yn llawn cariad a gobaith. Mae'r llall yn fyd llwm heb iaith, ffiniau a chymuned. Yn y ddau fyd mae Mair. Rhyngddynt mae'r presennol – a rhaid i Ifan ddewis.

Yn llawn cariad, emosiwn a chynnwrf gwleidyddol, mae Wythnos yng Nghymru Fydd, wedi'i ysgrifennu gan **Mared Llywelyn** a'i chyfarwyddo gan **Gethin Evans** yn ail-ddychmygiad beiddgar o glasur Islwyn Ffowc Elis sy'n gofyn pa ddyfodol sy'n cael ei greu gan ein Heddiw?

Y STORI

Mae Wythnos yng Nghymru Fydd yn dilyn Ifan, trydanwr 28 oed o Bwllheli. Mae Ifan yn byw gyda'i nain. Er ei fod yn ddoniol ac yn ddipyn o gymeriad, mae'n cael trafferth ymdopi ag atgofion anodd o'i blentyndod ac yn ansicr ynghylch cyfeiriad ei fywyd. Mae ei berthynas â Mair yn gymhleth. Mae gan Ifan deimladau cryf tuag ati, ond mae'r ddau yn gweld y byd yn wahanol. Mae Mair, ynghyd â'i ffrind Tegid, yn angerddol dros Gymru ac yn credu'n gryf yn yr angen i warchod yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i hunaniaeth. Mae Cymru a'r Gymraeg yn bwysig i Ifan hefyd, ond mae'n cwestiynu rhai o'u syniadau. Un noson, mewn parti mewn ysgubor, mae Ifan yn cyfarfod â Freddy Heinkel, sy'n rhoi cyffur dirgel iddo. Ar ôl ei gymryd, mae Ifan yn cael ei gludo'n sydyn i'r dyfodol.

2033 Mae Ifan yn cyrraedd Cymru wahanol iawn. Mae'n darganfod Y Fro, cymuned sydd wedi'i hadeiladu o amgylch yr iaith Gymraeg. Yno, mae'n cyfarfod â phobl y mae'n eu hadnabod, ond mae eu bywydau a'u credoau wedi newid. Ar y dechrau, mae Ifan yn cael ei ddenu at yr ymdeimlad cryf o gymuned, hunaniaeth a pherthyn y mae'n ei ddarganfod yno. Ond cyn hir, mae'n dechrau cwestiynu'r hyn y mae'n ei weld. Pwy sy'n perthyn? Pwy sy'n cael penderfynu? **A pha mor bell y dylai pobl fynd er mwyn gwarchod iaith, diwylliant a ffordd o fyw?** Wrth i'r tensiynau gynyddu, mae Ifan yn cael ei orfodi i wneud dewisiadau sydd â chanlyniadau difrifol.

2100 Mae taith Ifan yn mynd ag ef hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol. Mae'r Gymru y mae'n ei darganfod yn 2100 yn wahanol iawn eto. Wrth iddo geisio deall beth sydd wedi digwydd, mae'n cael ei wynebu â chwestiynau am ystyr colli iaith a beth sy'n weddill o ddiwylliant pan fo'r iaith honno'n diflannu. Mae hefyd yn darganfod bod y dewisiadau a wnaed gan Mair, Tegid, ac Ifan ei hun, wedi arwain at ganlyniadau ymhell y tu hwnt i unrhyw beth y gallai fod wedi'i ddychmygu. Mae'r profiad yn gorfodi Ifan i feddwl yn wahanol am ei fywyd ei hun ac am ei berthynas â Chymru, yr iaith Gymraeg a'r bobl sydd agosaf ato. Yn y pen draw, rhaid iddo ddychwelyd i'r presennol a wynebu'r dewisiadau sy'n aros amdano yno.

Mae'r ddrama'n symud rhwng 2026, 2033 a 2100. Dyfodol posibl sydd yma, yn hytrach na rhagfynegiad o'r hyn fydd yn digwydd. Drwy daith Ifan, mae Wythnos yng Nghymru Fydd yn archwilio iaith, hunaniaeth, perthyn, cariad a chyfrifoldeb. Mae'n gofyn sut y gall y penderfyniadau a wnawn heddiw, rhai mawr a bach, siapio byd yfory. Wrth galon y ddrama mae un cwestiwn: **Pa Gymru fydd?**

FRÂN WEN

"Ail-ddiffinio'r dyfodol. Un sioe ar y tro."

Cwmni sydd wedi ei leoli yn y 'Nyth' - Hwb celfyddydol, diwylliannol a chymunedol i Fangor a Gogledd Orllewin Cymru.

MARED LLYWELYN - Dramodydd

Mae Mared yn Swyddog Addysg a Gwirfoddoli gyda phrosiect Plas Carmel yn Anelog, Llŷn. Mae hi hefyd yn actor, dramodydd a nofelydd. Mae ei dramâu diweddar yn cynnwys *Croendena*, *Taigh/Ty/Teach*, ac addasiad o *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Islwyn Ffowc Elis. Fel actor mae Mared wedi ymddangos yn *Parti Priodas* a'r ffilm *Effi o Blaenau*. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Theatr Bara Caws.

CEFNDIR Y NOFEL WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD

Nofel [ffuglen wyddonol](#) gan [Islwyn Ffowc Elis](#) a gyhoeddwyd gan [Plaid Cymru](#) yn [1957](#) yw ***Wythnos yng Nghymru Fydd***.

Plot

Yn yr 1950au, mae prif gymeriad y nofel, Ifan Powell, yn cytuno i gymryd rhan mewn arbrawf gwyddonol ac yn teithio drwy amser i Gaerdydd yn y flwyddyn 2033. Mae'n aros gyda theulu Doctor Llywarch sydd yn mynd ag ef ar daith o gwmpas Cymru. Yno y mae'n canfod fod [Cymru](#) wedi ennill [hunan-lywodraeth](#), yn llewyrchus yn economaidd, yn heddychlon yn gymdeithasol ac y mae'r iaith [Gymraeg](#) yn ffynnu gyda phawb yn gwbl ddwyieithog. Syrthia Ifan mewn cariad â merch Doctor Llywarch, Mair, ac wedi iddo ddychwelyd i Gymru'r 1950au mae ei hiraeth amdani'n peri iddo fynnu mynd yn ôl i 2033. Er i'r gwyddonydd, Doctor Heinkel, sydd yn gwneud yr arbrawf ei gynghori yn erbyn hyn, y mae'n cytuno wedi i Ifan erfyn arno.

Fodd bynnag, mae Ifan yn dychwelyd i Gymru ddystopaidd, er ei fod yn ymddangos eto yng Nghaerdydd yn 2033. Yn y fersiwn hwn o'r dyfodol, Western England yw'r enw ar Gymru, mae'r iaith Gymraeg wedi marw a phob arlliw o hunaniaeth Gymreig wedi diflannu. Mae'r gymdeithas hefyd yn ansefydlog a llawn helynt. Dim ond am ddeuddydd y mae Ifan yn aros yma - y mae hynny yn fwy na digon iddo. Yn y rhan hon o'r nofel y ceir Ifan yn dod wyneb yn wyneb â Hen Wraig y Bala a phrofi marwolaeth y Gymraeg gyda'i lygaid ei hun.

Wedi i Ifan ddychwelyd am yr eildro i'r presennol mae Doctor Heinkel y gwyddonydd yn egluro iddo fod y ddwy Gymru y bu Ifan yn ymweld â hwynt yn bosibiliadau ar gyfer y dyfodol a bod tynged y wlad yn nwylo Cymry'r presennol. Yn sgil hyn y mae Ifan yn troi yn genedlaetholwr Cymreig (yr oedd gynt yn gwrthwynebu [cenedlaetholdeb Cymreig](#)) gan ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau mai'r Gymru y bu ynddi hi yn gyntaf fydd yn dod yn wir.

Mae'r nofel yn arwyddocaol yng nghyd-destun hanes [llenyddiaeth Gymraeg](#) fel enghraifft cynnar o ffuglen wyddonol i oedolion yn yr iaith

<https://cy.wikipedia.org/wiki/Hafan>

ISLWYN FFOWC ELIS

"Y gŵr a lusgodd y nofel Gymraeg i'r ugeinfed ganrif" oedd y disgrifiad ohono yn *Cydymaith i Llenyddiaeth Cymru*.

Nofelydd [Cymreig](#) oedd **Islwyn Ffowc Elis** yn bennaf, ond roedd hefyd yn fardd, yn llenor, yn weinidog yr efengyl, yn ddarlledwr, yn swyddog ac yn ymgeisydd dros Plaid Cymru, yn ddarlithydd, ac yn athro Cymraeg ail iaith.

Cofrestrodd fel gwrthwynebwr cydwybodol yn 1943, ar sail heddychiaeth Gristnogol. Bu'n weinidog gyda'r [Methodistiaid Calфинаidd](#) o [1950](#) hyd [1956](#), yn Llanfair Caereinion ac yna Niwbwrch. Ymddiswyddodd o'r weinidogaeth yn 1956 gan fentro ar gyfnod o chwe mlynedd a hanner heb swydd gyflogedig i'w gynnal ef a'i deulu. Yn hytrach enillai ei damaid o'i gynnyrch llenyddol, o'i waith darlledu ac ambell i gyfnod o waith cynhyrchu i'r BBC. Ef oedd y cyntaf i geisio cynnal ei hunan fel llenor Cymraeg proffesiynol,

Bu'n ymgeisydd seneddol ym Maldwyn ym [1962](#) a [1964](#). Ef oedd swyddog cyhoeddiadau Plaid Cymru adeg [Is-etholiad Caerfyrddin, 1966](#). Ef oedd yn gyfrifol am lenyddiaeth a chyhoedduswydd Plaid Cymru, gan gynllunio strategaeth gyhoedduswydd ymwithgar i Plaid Cymru a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf adeg ymgyrch Caerfyrddin. <https://cy.wikipedia.org/wiki/Hafan>

GWEITHGAREDDAU

TASG 1: TESTUNAU TRAFOD



Darllenwch y dyfyniadau isod o'r ddrama a phenderfynwch os ydych chi'n

Cytuno
Cytuno'n gryf
Anghytuno
Anghytuno'n gryf

Trafodwch.

Ydych chi'n newid carfan farn ar ôl trafod? Pam? Wrth drafod ceisiwch roi enghreifftiau, tystiolaeth i gefnogi'ch barn.

DYFYNIADAU

a) “Yr hen a ŵyr...a’r ifanc a ŵyr y blydi lot”

b) Ar grys-T Nain gwelir y geiriau “*Cenedl heb iaith, cenedl heb galon*” – I ba raddau ydych chi’n cytuno gyda hyn? Yn ddiweddarach yn y ddrama mae Ms Powel yn dweud:

“Yn araf bach mae colli iaith. Daeth y diwedd dim yn sydyn. Dim marwolaeth glan, ond pydru dros degawdau. Ni hunain gwnaeth lladd hi.”

I ba raddau ydych chi’n cytuno gyda hi?

c) Yn y ddrama mae Ifan yn dweud am wleidyddiaeth:

“Malu cachu dio gyd. Siarad shit lawr yn Ciediff...”

Beth yw gwleidyddiaeth yn eich barn chi? I ba raddau ydych chi’n cytuno efo Ifan?

ch) Ar y llaw arall mae Nain yn dweud y canlynol:

Nain: Ma’n bywyda ni gyd yn wleidyddol. Ma’r ffaith mod i dal yn gorfod gweithio ar fy mhensiwn yn wleidyddol. Y ffaith bod Mair a Tegid di mynd i Brifysgol a symud ffwr i Gaerdydd. Ma be ddigwyddodd i dy fam yn wleidyddol. Ein hamgylchiada ydan ni i gyd.

Ifan: Ond be fedar un person neud?

1. I ba raddau ydych chi'n cytuno efo Nain?
2. Beth all un person ei wneud i newid y drefn, i wneud cymdeithas yn le gwell?
3. Petaech chi'n edrych i lawr o'r gofod ar Gymru yn awr, beth fuasech chi'n ei weld? Sut ffordd o fyw?
4. Beth yw eich gobeithion dros Gymru? Sut Gymru ydych chi eisiau byw ynddi yn y dyfodol?

TASG YSGRIFENEDIG:

Gall y trafodaethau uchod arwain at gyflwyno tasgau ysgrifenedig e.e.

- Araith: Pa Gymru fydd?

TASG 2 : MYFYRIO AM Y CYNHYRCHIAD

- a) Ar ôl gwyllo'r cynhyrchiad gwnewch restr o eiriau sy'n dod i'ch meddwl.

Gallant fod yn ansoddeiriau, themau, cwestiynau hyd yn oed...

Trafodwch hwy fel dosbarth.

Beth ydych chi wedi ei ddysgu ar ôl gwyllo'r perfformiad?

- b) WORDLE

Edrychwch ar y Wordle a grewyd ar y dudalen ddilynol a chymharwch ei gynnwys efo'r rhestr a grewyd gennych chi.

A oes tebygrwydd?

Oes geiriau nad ydych yn eu deall neu ddim yn gwybod eu hystyr?

Trafodwch eu hystyron o fewn eich grwpiau ac yna fel dosbarth.

Gall rhai diffiniadau amrywio. Trafodwch beth yw'r ffactorau sy'n achosi hynny.



TASG 3: DELWEDDAU - CREU LLUNIAU LLONYDD

- a) Gan ddefnyddio pob aelod o'r grwp ewch ati i greu lluniau llonydd ar sail rhai o'r geiriau.

MEINI PRAWF LLUN LLONYDD EFFEITHIOL

- 1 Dychmygwch eich bod yn rhan o lun wedi **ei rewi** gan amser.
- 2 Gwnewch yn siwr bod **pob aelod o'r grwp** yn cael ei gynnwys
- 3 Meddyliwch yn ofalus am **leoliad** pob un aelod o'r grwp
- 4 Ystyriwch **lefelau** gwahanol
- 5 Cofiwch bod cynulleidfaoedd yn deall delweddu gweledol yn llawer mwy cyflym na deialog gymhleth. Gallwch gyfleu **emosiynau cymhleth** i gynulleidfa mewn delwedd gorfforol syml. Gwell fyth os y gallwch gynnwys **gwrthdaro a chyfyng-gyngor** cymeriad yn eich llun llonydd.

- b) Gwnewch lun llonydd ar gyfer pob thema sy'n codi yn y ddrama.
- c) Gallwch ddod â'r lluniau llonydd hyn yn fyw drwy ofyn i bob aelod o'r grwp fynegi un gair neu frawddeg sy'n dangos ei safbwynt ar y foment honno.
- ch) Dewiswch olygfeydd penodol o'r cynhyrchiad a'u hail-greu drwy luniau llonydd.
- d) TRAFODWCH: beth ydych chi'n feddwl oedd ystyr / pwrpas cynnwys y canlynol yn y cynhyrchiad?
- Baner Jac yr Undeb
 - Tanc dŵr
 - Dŵr o dan y llwyfan
 - Blodau lliwgar

- Cyfeiriadau at Yr Eifl
- Cyfeiriadau at y Bwystfil
- Cyfeiriadau at y fam (mam Ifan)
- Aralleiriad o Salm 23

TASG 4: DEALL CYMERIADAU

PWY YW PWY?

IFAN (Garmon Rhys)

Trydanwr 28 oed o Bwllheli. Mae'n ddoniol ac yn gymeriad, ond yn ansicr am ei ddyfodol. Mae'n byw gyda'i Nain, sydd wedi gofalu amdano ers pan oedd yn blentyn.

MAIR (Lois Elenid)

Person pwysig ym mywyd Ifan. Mae eu perthynas yn gymhleth ac mae gan Ifan deimladau cryf tuag ati. Mae Mair yn angerddol dros Gymru, yr iaith Gymraeg a'i dyfodol.

NAIN (Morfudd Hughes)

Nain Ifan. Mae wedi gofalu amdano ers pan oedd yn blentyn ac mae'r berthynas rhyngddi hi ac Ifan wrth galon emosiynol y ddrama.

TEGID (Siôn Eifion)

Ffrind i Ifan a Mair. Mae'n rhannu credoau cryf Mair am Gymru, gwleidyddiaeth a'r iaith Gymraeg.

FREDDY HEINKEL (Sam Reeves)

Dyn ifanc y mae Ifan yn ei gyfarfod mewn parti. Mae ei ddyfodiad yn newid cwrs noson Ifan, a'i fywyd.

- a) Darllenwch yr olygfa ganlynol ac yna rhannwch y dosbarth yn A a B e.e. mae'r rhai sy'n A i gyd yn Ifan, y rhai sy'n B i gyd yn Mair. (*Gallwch hefyd ddefnyddio golygfa arall a rhannu'n grwpiau yn ôl faint o gymeriadau sy'n ymddangos yn yr olygfa*)

Ewch i'ch grwpiau cymeriad (h.y. y rhai sy'n A i gyd gyda'i gilydd) a thrafodwch beth sydd wedi digwydd i'ch cymeriad a sut mae'n teimlo ar y pwynt hwn.

GOLYGFA RHWNG IFAN A MAIR

Enter Mair.

1. **Mair:** Hei.
2. **Ifan:** Hei.
3. **Ifan:** Ti'n iawn?
4. **Mair:** Wti?
5. **Ifan:** Gwell nag o'n i.
6. *Saib.*
7. **Mair:** Oddani'n meddwl bod ni am dy golli di. A Freddy...
8. **Ifan:** Dwi'n gwbo... dwi'n gwbod.
9. **Mair:** Odd raid i Tegid ffonio ei rieni o, i ddeud be odd di digwydd. A'i fam o, yn sgrechian lawr y lein... yn methu coelio bod ei hogyn hi di mynd. Mewn beudy ym Mhen Llŷn. Mi aeth o efo nhw, i weld y corff. Oddo'n deud pobol mor lyfli oddan nhw... ac eu gweld nhw fana, yn y morg. Mi atho ffwrdd i Gaerdydd wedyn.
10. **Ifan:** Ella yn Gaerdydd ddyla fo fod.

11. **Mair:** Be ffwc odd ar dy ben di? Ti'n sylweddoli'r effaith ma hyn di gael ar bawb?
12. **Ifan:** Fatha pwy?
13. **Mair:** Ma pobol yn siarad sdi... am y ffaith bo fi yna.
14. **Ifan:** Dyna sy'n poeni chdi?
15. **Mair:** Deu tha fi na dim bai fi oddo.
16. **Mair:** Dewis chdi odd cymryd y pil.
17. **Ifan:** Ia. Dewis fi.
18. **Mair:** Cymra gyfrifoldeb am unwaith yn dy fywyd ta.
19. **Ifan:** Chdi sy angan gneud huna.
20. **Mair:** Fi?
21. **Ifan:** Ti di bod yn iwsio fi ers blynyddoedd.
22. **Mair:** Na. Odda chdi'n gwbod yn iawn be odd y cytundeb rhyngdda ni.
23. **Ifan:** Pa gytundeb? Odda chdi di rhedeg i ffwrdd cyn i fi allu gofyn i chdi be odd rhyngdda ni.
24. **Mair:** Nesdi'm trio'n galad iawn naddo?
25. **Ifan:** Odda chdi'n gwbod swni'n gneud wbath i chdi.
26. **Mair:** Dwi'm y person ti'n feddwl ydw i, sdi. Y dduwies ma, be bynnag ti wedi ei greu yn dy ben. Ti'n rhoi gormod arna fi.
27. *Beat.*
28. **Ifan:** Pam odda chdi wastad yn dod nôl ata i,ta?
29. *Beat*

30. **Ifan:** T'laen, Mair.
31. **Mair:** Dwmbob sut i egluro fo. Dwi'n dallt pobol, gallu darllan nhw'n dda. Ond ma 'na w bath amdana chdi... dwi'm cweit yn dy ddallt di.
32. **Ifan:** Nesi roi fy hun i gyd i chdi
33. **Mair:** Naddo. Tu ôl i'r blydi charm 'na...ti'n llawn cracia.
34. **Ifan:** Ac oddo'n her i chdi drwsio fi?
35. **Mair:** Pam nes di ddod a fi yma?
36. **Ifan:** Achos mod i'n dy garu di. Neu oni'n meddwl bo fi. Ond odda chdi'n gw bod hun a'n barod, doddat?
37. **Beat**
38. **Mair:** Be tisho fi ddeud? Nesi'm trio neud hyn i chdi, sdi.
39. **Ifan:** Nesi bron lladd rywun i chdi, oni'r dyn ola odd yn siarad Cymraeg a dodd hynny dal ddim digon da i chdi.
40. **Mair:** Be?
41. **Ifan:** Dwi byth am fod digon da i chdi, nadw?
42. **Mair:** Pam nesi weld nhw'n gwrthio chdi i gefn yr ambiwlans 'na, oni'n meddwl ella sa fo'r tro ola i fi weld chdi. Os ti'n meddwl mod i'm yn teimlo dim byd amdana chdi, ti'n rong. Ond allai'm gorfodi'n hun i deimlo be ti isio i mi deimlo.
43. **Ifan:** Dwi angen bod yn rhydd ohono chdi.
44. *Saib.*

45. **Mair:** Do'n i ddim yn bwriadu dy frifo di, Ifan. Odd bod efo chdi'n gneud fi deimlo'n dda. Bod rywun isio fi. A ti'n haeddu hyna hefyd.

Dyma rai pwyntiau i'ch helpu: (*o safbwynt y cymeriad*)

- 1 Disgrifiwch sut rydych yn teimlo ar y pwynt hwn.
- 2 Ydych chi'n teimlo eich bod yng nghanol yr hyn sy'n digwydd neu ar yr ymylon?
- 3 Ai chi sy'n arwain a chyfeirio'r ddeialog a'r gweithredoedd? Neu ymateb yn bennaf ydych chi?
- 4 Beth sy'n gwneud ichi ymddwyn fel hyn ar hyn o bryd?
- 5 Beth sy'n bwysig i chi ar hyn o bryd?
- 6 Oes 'na bethau rydych chi'n teimlo eich bod eisiau eu gwneud yn yr olygfa ond nad ydych yn ei wneud?
- 7 Oes 'na bethau rydych chi'n teimlo eich bod eisiau eu dweud yn yr olygfa ond nad ydych yn ei ddweud?
- 8 Pa gwestiynau fuasech chi'n hoffi ei ofyn i'r cymeriadau eraill ar y pwynt hwn yn y ddrama? Nodwch y cwestiynau.

b) CHWARAE ROL

Ymarfer y Gadair Goch (hotseating)

Ymarfer yw hwn pan fo aelod o'r dosbarth yn eistedd ar y gadair goch i ateb cwestiynau am ei gymeriad er mwyn dod i'w adnabod yn well. Y gamp yw ceisio cadw o fewn y cymeriad a rhoi atebion synhwyrol a chredadwy. Gall gweddill y dosbarth ofyn y cwestiynau roeddynt wedi eu paratoi (*rhif 8 uchod*)

c) Gwerthuso'r ymarfer

Trafodwch yr hyn a ddywedwyd a'r ymatebion. Oes yna unrhyw ddaliadau, safbwyntiau neu agweddau o'r cymeriadau yr hoffai pobl eu harchwilio ymhellach?

ch) Actio

Mewn paruau ewch ati i actio'r olygfa hon.

Cadwch mewn cof ofynion y cwestiynau arholiad e.e.

DRAMA TGAU**CWESTIWN ADRAN A**

- (i) Disgrifiwch y berthynas rhwng IFAN a MAIR yn y darn hwn. [4]
- (ii) Esboniwch sut gallai'r DDAU actor ddefnyddio symudiadau i gyfleu'r berthynas hon i gynulleidfa. [4]

CWESTIWN ADRAN B

Dadansoddwch a gwerthuswch y rhyngweithio rhwng dau actor ar UN foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull actio
- Sut cafodd y rhyngweithio ei ddefnyddio i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r rhyngweithio fel aelod o'r gynulleidfa.

[15]

DRAMA UG

Fel cyfarwyddwr, esboniwch sut byddech chi'n defnyddio symudiadau i gyfleu'r berthynas rhwng IFAN a MAIR yn y darn hwn.

Yn eich ateb, dylech chi gyfeirio at:

- Eich dewis o'r math o lwyfan
- Lleoliad y cymeriadau (*character positioning*)
- Symudiadau a rhyngweithio

[15]

DRAMA SU

Fel cyfarwyddwr, trafodwch sut mae lleoliad a symudiadau'r cymeriadau yn dangos y berthynas rhwng xxx a xxxx. Yn eich ateb dylech gyfeirio at **ddau** ddarn o'ch dewis. [20]

CYMRAEG TGAU & UG

1. Ysgrifennwch ddetholiad o **ddyddiadur Mair** yn dilyn yr olygfa uchod.
2. Ysgrifennwch **ymson i lfan** yn dilyn yr olygfa uchod.

Edrychir ar fwy o gwestiynau arholiad enghreifftiol ar ddiwedd y pecyn.

TASG 5: AILEDRYCH AR DDIGWYDDIADAU'R DDRAMA

TASG YMARFEROL: Coridor Cydwybod / Twne! Teimladau:

Rhannwch y dosbarth yn ddau gan ofyn iddynt greu dwy res yn wynebu'i gilydd ond gan adael digon o fw!ch i berson gerdded rhwng y ddwy res.

Gallwch ailadrodd yr ymarfer hwn gyda phwyslais gwahanol bob tro e.e.

- Rhes A yn GADARNHAOL a rhes B yn NEGYDDOL e.e. am Y FRO
- Rhes A yn cynrychioli gweledigaeth gyntaf Ifan a rhes B yn cynrychioli ail weledigaeth Ifan. Gallwch ddewis aelod o'r dosbarth i fod yn Ifan yn cerdded rhwng y ddwy res a gofyn iddo drafod ei deimladau ar ôl yr ymarfer.

Gallwch ddatblygu'r syniadau uchod i gwblhau un o'r tasgau ysgrifenedig isod:

CYMRAEG: TASGAU YSGRIFENEDIG

TGAU	UG	SU
Datganiad i'r wasg	Erthygl olygyddol	Datganiad i'r wasg
Bwletin newyddion	Adroddiad newyddiadurol	Bwletin newyddion
Adroddiad papur newydd		Adroddiad papur newydd
		Prif eitem newyddion

Cyn mynd ati i gwblhau un o'r tasgau uchod, trafodwch y dyfyniadau canlynol:

Dyfyniad 1

Mair: (yn darllen pennawd Newyddion oddi ar ei ffon)

'Purist Welsh Cult established on Lley'n Peninsula'

Trawsieithwch y dyfyniad hwn a defnyddiwch ef fel pennawd i'ch gwaith ysgrifenedig.

Dyfyniad 2

Mair: Ffycling Daily Mail o bawb, yn galw ni'n right wing? Ma'r peth yn wallgo!

Tegid: All press is good press.

Trafodwch: I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda Tegid?

Beth am ysgrifennu Adroddiad Papur Newydd / Adroddiad Newyddiadurol o safbwynt eithafol e.e. yr adain dde ac yna un llawer mwy cytbwys.

TASG 6: DYLUNIO


Nodyn cyffredinol:

Dylunydd cynhyrchiad *Wythnos yng Nghymru Fydd* (Set a gwisgoedd) yw **Elin Steele**.

Mewn cyfweliad yn y cylchgrawn BARN Rhif 765 Hydref 2026 noda Elin:

“O ran y byd cyfoes yn 2026, mae hynny'n cael ei gyfleu drwy'r gwisgoedd yn fwy na dim, heb lawer o ddim byd ar y llwyfan. Mae'r pwyslais ar ddod i nabod y cymeriadau. Wedyn pan 'dan ni'n mynd i 2033 – y Gymru iwtopaidd – mae o'n fyd tipyn bach yn fwy haniaethol. Ac wedyn pan 'dan ni'n glanio yn 2100, y Gymru ddystopaidd, mae o'n lle gwahanol eto.”

SET



PWYNTIAU TRAFOD:

1. Beth yw arddull y cynhyrchiad?
2. Pa lwyfan a ddefnyddir?
3. Beth mae'r set yn ei gyfleu? Pa leoliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y llwyfan?
4. Beth yw'r lliwiau a ddefnyddir? Pam dewis y lliwiau hyn?
5. Pa awyrgylch sy'n cael ei greu a sut?
6. Sut mae'r newid amser / lleoliadau yn cael eu cyfleu?
7. Pa ddelweddau o'r cynhyrchiad sy'n aros yn y cof?
8. Pa 3 ansoddair fuaset ti'n eu dewis i ddisgrifio'r set?
9. Mynegi barn: Pa mor effeithiol yw'r set yn dy farn di?
10. Petaet ti'n dylunio set ar gyfer *Wythnos yng Nghymru Fydd*:
 - Pa lwyfan fuaset ti'n ei ddewis ar gyfer y cynhyrchiad?
 - Pa syniadau fuaset ti'n eu cadw/ efelychu?
 - Pa syniadau newydd fuasai gen ti?

11. Os yw amser yn caniatáu, beth am iti:

- Wneud deiagram o dy set
- Neu creu 'collage' / 'mood board' o dy syniadau
- Neu creu model cerdyn gwyn (sef model bras o'r set ar raddfa 1:25) – naill ai gyda llaw neu'n ddigidol.

GWISGOEDD, GWALLT A CHOLUR




PWYNTIAU TRAFOD:

1. Beth yw'r syniad y tu ôl i'r dewis o wisgoedd yn dy farn di?
2. Beth yw cyfnod, steil y gwisgoedd?
3. A oes thema lliw i gyd-fynd â chymeriad?
4. Beth mae'r wisg yn ei ddweud wrthym am y cymeriad?

5. Mae rhai o'r actorion yn actio mwy nag un cymeriad. Sut mae'r wisg yn adlewyrchu hyn ac yn eu helpu i ddangos gwahaniaeth?
6. Pa 3 ansoddair fuaset ti'n eu dewis i ddisgrifio'r gwisgoedd?

GOLEUO

Dylunydd Golau: Bretta Gerecke



PWYNTIAU TRAFOD:

1. Pa awyrgylch sy'n cael ei greu a sut? Rho enghreifftiau penodol o sut mae goleuo yn creu awyrgylch mewn golygfeydd.
2. Sut mae cyfleu'r newid amser / lleoliadau?
3. Beth yw'r lliwiau a ddefnyddir? Pam dewis y lliwiau hyn?
4. A ddefnyddir gobos?
5. Pa effeithiau golau arbennig a ddefnyddir e.e. mwg?

6. Dewis un effaith golau fydd yn aros yn dy gof ac eglura pam.
7. Pa 3 ansoddair fuaset ti'n eu dewis i ddisgrifio'r cynhyrchiad?

SAIN

Cyfansoddwr: Gwilym Gold

Dylunydd Sain: Sam Jones

PWYNTIAU TRAFOD:

1. Disgrifia'r sain yn y ddrama. A oedd sain arbennig yn cael ei ailadrodd? Pa mor effeithiol oedd y sain hwn i greu awyrgylch?
2. Disgrifia'r gerddoriaeth yn y ddrama. Beth yw dy farn am gerddoriaeth y ddrama?
3. Sut awyrgylch sy'n cael ei greu a sut? Rho enghreifftiau penodol o sut mae sain yn creu awyrgylch mewn golygfeydd.
4. Pa 3 ansoddair fuaset ti'n eu dewis i ddisgrifio'r cynhyrchiad o safbwynt y sain a cherddoriaeth?

CWESTIYNAU ARHOLIAD ENGHREIFFTIOL: DRAMA

NODYN: *Yn yr arholiad terfynol, mi fuasech chi'n ateb y math yma o gwestiynau arholiad ar destun gosod rydych yn ei astudio yn y dosbarth ond gallwch ymarfer eich techneg drwy eu hateb ar y cynhyrchiad Wythnos yng Nghymru Fydd.*

TGAU DRAMA – UNED 3 – DEHONGLI THEATR

CWESTIYNAU ADRAN A

Darllenwch y darn canlynol ac atebwch gwestiynau 1-4.

1. *Mae Tegid fel petai yn gwybod be i'w ddweud ond yn methu ei ddweud o efo arddeliad. Does dim byd yn ysbrydoledig iawn amdano a dydio ddim yn tanio'r gynulleidfa.*
2. **Tegid:** Heddiw da ni wedi cyrraedd carreg filltir... mi gyrhaeddodd bws o 37 ohonoch chi yma heddiw... a da ni wedi cyrraedd y 1,000.
3. Gwnewch yn siŵr eich bod chi gyd wedi cofrestru. Yn anffodus da ni'n cael trafferth efo'r pŵer... mae o'n mynd a dod... a chofiwch i ond fflysho papur i lawr y portalŵs.
4. **Gwenda:** Iesu Grist.
5. **Tegid:** Syniad fy nhaid, Elis Gwynfor oedd y Fro. Ac mi fydd y flwyddyn hon, y flwyddyn 2033, yn ddyddiad fydd yn cael ei gofio gan genedlaethau i ddod, fel y flwyddyn nathon ni wireddu'r freuddwyd.
6. Ac mi fysa Taid yn falch iawn o weld cyn gymaint o bobl yma. Flwyddyn yn ôl, mi gafodd Gymru refferendum. Cyfla hanesyddol, i gael rhyddid, i gael annibyniaeth. Ond mi fuom yn ddi asgwrn cefn. Mi fuon ni'n gachwrs... yn wymon o ddynion.

7. Yes, Cymru? No Cymru... Sarhad didgruagredd y papura Prydeinig, a'r Saeson yn ymfalchïo yn ein methiant. Yn ein sathru fwy nag erioed.
8. *Tegid yn disgwyl cymeradwyaeth am hyn... ond dio'm yn cael un.*
9. Ac felly dyma ni, yn dangos ein bod ni wedi cael digon o gael ein sathru. Mae twf yr adain dde wedi bod yn cyniwair ar lawr gwlad ers blynyddoedd, a rwan mae wedi creu nyth o seirff yn San Steffan. Mae ein Senedd yn gwegian, a'm gwleidyddion yn ddiasgwrn cefn. Ond yma, yn y Fro, da ni am gymryd beth sydd wedi cael ei rwygo oddi wrthym yn ôl. Dechrau o'r newydd, a cymryd rheolaeth a chymryd ein pwer.
10. **Gwenda:** Dio'm hanar y dyn ag oedd ei Daid chwaith. Yr hen a wyr...
11. **Ifan:** A'r ifanc a wyr y blydi lot!
12. **Gwenda:** *(synnu bod o'n gwybod - mae hi'n hoff ohono!)* Yn union!
13. **Tegid:** Rydych chi yma am eich bod wedi dewis bod yn rhan o'r chwyldro. Dyma'r cam cyntaf i oes newydd.
14. Ac ym... I'r gad!
15. *Pawb yn cymeradwyo. Tegid yn mwynhau'r gymeradwyaeth ond eto'n teimlo braidd yn lletchwith ar y llwyfan.*

TGAU DRAMA

1. (i) Enwch DDWY dechneg ymarfer gallai cyfarwyddwr eu defnyddio i baratoi actor ar gyfer rôl TEGID yn y darn hwn. [2]
(ii) Esboniwch sut gallai UN o'r technegau hyn helpu'r actor i baratoi ar gyfer perfformio'r rôl hon. [2]
2. (i) Disgrifiwch yn gryno yr awyrgylch yn y darn hwn. [2]
(ii) Fel dylunydd, awgrymwch DDWY ffordd gallech chi ddefnyddio sain i gyfleu'r awyrgylch yn y darn hwn. Rhewch resymau dros eich awgrymiadau. [4]
3. (i) Disgrifiwch y berthynas rhwng IFAN a GWENDA yn y darn hwn. [4]
(ii) Esboniwch sut gallai'r DDAU actor ddefnyddio symudiadau i gyfleu'r berthynas hon i gynulleidfa. [4]
4. (i) Fel dylunydd, disgrifiwch sut y byddech chi'n llwyfannu'r darn hwn gan ddefnyddio LLWYFAN GYLCH.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Sut cafodd y ddrama ei llwyfannu'n wreiddiol
 - Eich dewis o arddull cynhyrchu
 - Eich dewis o set a goleuo
 - Rhesymau dros eich dewisiadau [12]
5. Gan gyfeirio at UN darn o'r ddrama, disgrifiwch sut y gallai'r actor sy'n chwarae rhan xxxx gyfleu'r cymeriad hwn i gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Cymhelliant y cymeriad
- Llais
- Symudiadau
- Rhyngweithio [15]

CWESTIYNAU ADRAN B: DADANSODDI A GWERTHUSO THEATR FYW

Dylech chi seilio eich ateb ar UN cynhyrchiad theatr fyw rydych chi wedi'i weld yn ystod y cwrs. Ar ddechrau eich ateb, nodwch :

- enw'r cynhyrchiad,
- y cwmni
- a'r lleoliad.

Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu yn yr adran hon.

Atebwch NAILL AI cwestiwn 8 -1 neu gwestiwn 9-1

NODYN: Seiliwch eich ateb ar y cynhyrchiad WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD

Dyma'r math o gwestiynau a all godi mewn arholiad:

ACTIO - ENGHRAIFFT 1

Dadansoddwch a gwerthuswch sut cafodd sgiliau lleisiol eu defnyddio gan UN actor ar DDAU foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull actio
- Sut cafodd sgiliau lleisiol eu defnyddio i greu cymeriad ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r sgiliau lleisiol fel aelod o'r gynulleidfa. [15]

ACTIO - ENGHRAIFFT 2

Dadansoddwch a gwerthuswch sut cafodd sgiliau symud eu defnyddio gan UN actor ar DDAU foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull actio
- Sut cafodd sgiliau symud eu defnyddio i greu cymeriad ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r sgiliau symud fel aelod o'r gynulleidfa. [15]

ACTIO - ENGHRAIFFT 3

Dadansoddwch a gwerthuswch y rhyngweithio rhwng dau actor ar UN foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull actio
- Sut cafodd y rhyngweithio ei ddefnyddio i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r rhyngweithio fel aelod o'r gynulleidfa. [15]

DYLUNIO - ENGHRAIFFT 1

Dadansoddwch a gwerthuswch y set a phropiau ar DDAU foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull cynhyrchu
- Sut cafodd y set a phropiau eu defnyddio i greu awyrgylch ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r set fel aelod o'r gynulleidfa [15]

DYLUNIO - ENGHRAIFFT 2

Dadansoddwch a gwerthuswch sut cafodd goleuo ei ddefnyddio ar DDAU foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull cynhyrchu
- Sut cafodd goleuo ei ddefnyddio i greu awyrgylch ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r goleuo fel aelod o'r gynulleidfa

[15]

DYLUNIO - ENGHRAIFFT 3

Dadansoddwch a gwerthuswch sut cafodd sain ei ddefnyddio ar DDAU foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull cynhyrchu
- Sut cafodd sain ei ddefnyddio i greu awyrgylch ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r sain fel aelod o'r gynulleidfa

[15]

DYLUNIO - ENGHRAIFFT 4


Dadansoddwch a gwerthuswch sut cafodd gwisg a cholur UN o'r actorion eu defnyddio mewn dau foment er mwyn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

- Arddull cynhyrchu
- Sut cafodd gwisg a cholur eu defnyddio i greu awyrgylch ac i gyfleu ystyr
- Eich ymateb i'r gwisg a cholur fel aelod o'r gynulleidfa

[15]

CYNGOR



CWESTIYNAU ARHOLIAD ENGHREIFFTIOL: DRAMA

DRAMA A THEATR – UG UNED 2 – TESTUN MEWN THEATR

NODYN: *Yn yr arholiad terfynol, mi fuasech chi'n ateb y math yma o gwestiynau arholiad ar destun gosod rydych yn ei astudio yn y dosbarth ond gallwch ymarfer eich techneg drwy eu hateb ar y cynhyrchiad Wythnos yng Nghymru Fydd.*

Darllenwch y darn canlynol (*tua 3 tudalen*) Yna atebwch gwestiynau 1-1 ac 1-2.

DARN UG

1. *Mae Mair yn rowlio'r rolyn papur allan.*
2. **Ifan:** Be di hwna?
3. **Mair:** Y syniadau mawr!
4. *Ifan yn gwenu. Mae o'n licio'r Mair angerddol yma.*

5. **Mair:** Pam ti'n gwenu?
6. **Ifan:** Jesd, ti'n atgoffa fi o rywun.
7. **Mair:** Hwn di'r Fro.
8. **Ifan:** Oni'n meddwl bo ni yn y Fro?
9. **Mair:** Mae'r weledigaeth yma, yr ewyllys yma... y bobol yma...ond
10. **Ifan:** Ti'n deutha fi fod'm acshyli'n bodoli eto?
11. *Mair yn dechrau gosod y tŵls allan. Ella bod 'na sialc yn gyntaf, ac mae hi'n gwneud llinell o gylch ar y llawr i ddynodi ffin Y Fro.*
12. *Wedyn, mae hi'n defnyddio'r tŵls i ddynodi'r gwahanol adeiladau ar y map.*
13. **Mair:** Dychmyga rŵan, yn edrych i lawr o'r gofod, ar Gymru, Y lle, lle mae'r fraich dal yn ymestyn allan i'r gorllewin, o graig gadarn, dros donnau gleision, ei bys bron â chyffwrdd y machlud bob nos.
14. Ac o fan hyn, mi fyddwn ni'n ail-ddychmygu ffordd o fyw. Ac yn tyfu. Yn ymestyn y Fro nes fyddani wedi ennill Cymru gyfan yn ôl.
15. Da ni'n fan hyn, yn y Clwb. Lle mae trigolion y Fro i gyd yn dod i drafod, i gael ein hysbrydoli, siarad efo'n gilydd, dadlau, chwerthin.
16. **Ifan:** Lysho....
17. **Mair:** O'r sgysia llawr gwlad yn fama mae'r penderfyniadau mawr yn tyfu.
18. **Ifan:** Pa benderfyniada?
19. **Mair:** Sut mae'r Fro yn cael ei rhedeg.
20. **Ifan:** Pwy sy'n gneud y penderfyniada?
21. **Mair:** Y Senedd. Ond wedi'i wreiddio yn llais y bobl.

22. Mae gen ti is-grwpiau bob dim fysa chdi angen mewn cymdeithas fodern. Dwi di cael bod yn rhan o'r trafodaethau ar be fydd yn cael ei ddysgu yn yr ysgolion – w! Fydd yn cael eu hadeiladu yn...
(*mae'n gosod un o'r tŵls*) fama!
23. **Ifan:** Ochdi'n gneud yn dda yn ysgol masiwr?
24. **Mair:** Amwn i. Chdi?
25. **Ifan:** Casau fo.
26. **Mair:** Pam fod huna ddim yn synnu fi?
27. **Ifan:** Sut da chi'n mynd i dalu am hyn i gyd?
28. **Mair:** Fydd 'na drethi yn arbennig i'r Fro. Gneud yn siwr fod bob punt yn mynd yn ôl i'r Fro, i bobl y Fro.
29. **Ifan:** Pawb yn edrach ar ol ei gilydd yn lleol, llw?
30. **Mair:** Di huna ddim i ddeud nad oes ganddoni gysylltiadau rhyngwladol cofia. Ti'n gweld lwerddon o'ma ar ddiwrnod clir. Mi fedrani gynghreirio efo cymunedau, y gwledydd bach dros Ewrop a'r byd.
31. *Saib.*
32. **Ifan:** Lle ma'r bobl sydd angen help yn mynd?
33. **Mair:** I'r Babel Groeso, at Gwenda.
34. **Ifan:** Nage, pobl sy angen help go iawn.
35. **Mair:** Fatha pwy?
36. **Ifan:** Deud os di rywun yn sal...
37. **Mair:** Ysbyty. A ti'n gwbod, mae'r NHS fel mae o ar ei linia, a prin ti'n cael gwasanaethau yn y Gymraeg, chei di'm bod yn sal yn iaith dy hun hydnoed/

38. **Ifan:** Nage, fatha, methu gweithio, byw o ddydd i ddydd llw?
39. **Mair:** O...
40. **Ifan:** Be os fysa 'na blentyn bach isio help. Lle sanw'n mynd?
41. **Mair:** Ti'n iawn. Nawni weithio arno fo? Cynnig y syniad i'r pwyllgor?
42. **Ifan:** Os 'sa Ffwrtbol?
43. **Mair:** Sbia'n fama, fydd y Clwb Chwaraeon. Ganddoni gaeau anhygoel, fyddani'n cael astroturfs, cwrt tennis, Gym.
44. *Mair yn gafael mewn wbath crwn fysa'n gallu bod yn bêl ffwrtbol.*
45. **Mair:** Gei di hyfforddi ffwti i'r plant.
46. **Ifan:** Doni'm yn gofyn am job.
47. **Mair:** Ti'n cael yr hyn ti'n ei roi fewn yn y Fro- mae gan bawb ei ran i chwarae.



TASG FYFYRIO**THEMA: CYFRIFOLDEB**

Pa ran wyt ti'n chwarae yn dy gymuned?

Yn yr ysgol?

Yn dy bentref/tref/dy ardal?

Wyt ti'n aelod o glwb neu gymdeithas? Oes gen ti gyfrifoldebau yno? Os na, pam?

THEMA: CYFFURIAU

Pam bod pobl ifanc yn cymryd cyffuriau?

Beth all yr unigolyn ei wneud? Ei d/ theulu?

Cymdeithas? Llywodraeth?

CWESTIYNAU UG DRAMA

1-1 Fel actor, trafodwch sut byddech chi'n defnyddio eich llais wrth berfformio rhan MAIR yn y darn hwn.

Yn eich ateb, dylech chi gyfeirio at:

- Yr amgylchiadau penodol (*given circumstances*)
- Cymhelliant y cymeriad
- Dewisiadau lleisiol.

[10]

1-2 (i) Fel cyfarwyddwr, esboniwch sut byddech chi'n defnyddio symudiadau i gyfleu'r berthynas rhwng IFAN a MAIR yn y darn hwn.

Yn eich ateb, dylech chi gyfeirio at:

- Eich dewis o'r math o lwyfan
- Lleoliad y cymeriadau (*character positioning*)
- Symudiadau a rhyngweithio [15]

(ii) Dadansoddwch a gwerthuswch sut mae **o leiaf un** cynhyrchiad theatr byw (*gallwch drafod Wythnos yng Nghymru Fydd yn yr achos hwn*) rydych chi wedi'i weld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich dewisiadau fel cyfarwyddwr yn 1-2(i) [15]

Mae cwestiwn 1-3 yn canolbwyntio ar y ddrama gyfan. Dylech chi dreulio 30 munud ar gwestiwn 1-3.

1-3 Fel dylunydd, trafodwch eich syniadau ar gyfer set a phropiau mewn **dau** ddarn o'ch dewis chi. Peidiwch a defnyddio'r darn a drafodwyd uchod.

Yn eich ateb, dylech chi gyfeirio at:

- Arddull cynhyrchu y perfformiad gwreiddiol
- Eich dewis o lwyfan ac arddull cynhyrchu
- Eich dewis o set a phropiau. [20]



CWESTIYNAU ARHOLIAD ENGHREIFFTIOL: DRAMA

DRAMA A THEATR – A2 UNED 4 – TESTUN MEWN PERFFORMIAD

NODYN: *Yn yr arholiad terfynol, mi fuasech chi'n ateb y math yma o gwestiynau arholiad ar destun gosod rydych yn ei astudio yn y dosbarth ond gallwch ymarfer eich techneg drwy eu hateb ar y cynhyrchiad Wythnos yng Nghymru Fydd.*

CWESTIYNAU ADRAN A

Darllenwch y detholiad tair tudalen ac atebwch gwestiynau 1, 2 a 3.

1. Fel actor, esboniwch sut y byddech chi'n dehongli rôl xxx yn y detholiad. Yn eich ateb dylech gyfeirio at y llais, symudiadau a rhyngweithio. [15]
2. Dadansoddwch a gwerthuswch sut mae cynyrchiadau theatr rydych wedi eu gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich dewisiadau yng ngwestiwn 1. [10]
3. Fel dylunydd set a phropiau, trafodwch sut fuasech chi'n creu awyrgylch yn y detholiad hwn. Yn eich ateb dylech gyfeirio at eich dewis o lwyfan ac arddull cynhyrchu. Dylech esbonio sut mae eich syniadau yn berthnasol i'r ddrama gyfan. [30]

CWESTIYNAU ADRAN B

Yn yr arholiad terfynol, mi fyddwch yn ateb cwestiynau ADRAN A ar un ddrama osod ac yn ateb cwestiynau ADRAN B ar ddrama osod arall. *Er mwyn ymarfer techneg arholiad gallwch ateb y cwestiynau canlynol ar WYTHNOS YNG NGHYMURU FYDD.*

Fel cyfarwyddwr, trafodwch sut mae lleoliad a symudiadau'r cymeriadau yn dangos y berthynas rhwng xxx a xxxx. Yn eich ateb dylech gyfeirio at **ddau** ddarn o'ch dewis. [20]

Dadansoddwch a gwerthuswch sut mae unrhyw gynyrchiadau theatr fyw rydych chi wedi eu gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich syniadau cyfarwyddo. [20]

TAG UG A SAFON UWCH **CYMRAEG** (laith gyntaf)

Bydd gwyllo a thrafod y cynhyrchiad *Wythnos yng Nghymru Fydd* o fudd i'r disgyblion yn arbennig yn yr ASESAD SYNOPTIG wrth iddynt ddadansoddi themau a defnyddio iaith lafar ac wrth iddynt ymarfer elfennau canlynol o'r fanyleb:

UNED 1: Y FFILM A'R DDRAMMA A LLAFAREDD

- trafod cymeriadau a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- deialog
- plot a thrafod golygfeydd allweddol
- manylu ynghylch y defnydd o sain neu gerddoriaeth gefndirol
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith
- trafod themau

UNED 2:

Tasg Un – Ysgrifennu darn estynedig ar un o'r ffurfiau canlynol:

- dyddiadur
- ymson
- portread
- darn o hunangofiant
- erthygl olygyddol

Tasg Dau – Ymchwilio a Mynegi Barn ar Bwnc Ilosg

- araith ysgrifenedig, addas i'w thraddodi yn cyflwyno barn neu safbwynt

UNED 6: GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH, Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN**ADRAN B**

Disgwylir i ymgeiswyr ysgrifennu darn ar un o'r ffurfiau isod:

- bwletin newyddion
- prif eitem newyddion
- datganiad i'r wasg
- adroddiad i bapur Newydd
- anerchiad

TAG UG/ SU CYMRAEG

(UNED 3 UG) Wrth ymateb yn bersonol disgwylir i ymgeiswyr drin materion fel y rhai a ganlyn:

themâu a syniadaeth, agwedd y bardd at fywyd.

Yn ogystal, disgwylir i'r ymgeiswyr ystyried dehongliadau eraill. — Manyleb CBAC

TASG 1: Daw'r detholiad isod o ddrama radio *Buchedd Garmon* gan Saunders Lewis:

Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
i'w thraddodi i'm plant, ac i blant fy mhlant,
yn dreftadaeth dragwyddol.

Ac wele'r moch yn rhuthro arni, i'w maeddu.

Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,
cyffredin ac ysgolhaig,

Deuwch ataf i'r adwy,

Sefwch gyda mi yn y bwlch,

fel y cadwer i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.

Gallwch wrando arni yn cael ei chanu ynghyd â gwylio delweddau ar YOUTUBE:

<https://youtu.be/o3jp0mP0qbo?si=fiL0NOWOL1FYdZ-D>

TASG YSGRIFENEDIG:

Defnyddiwch y detholiad uchod fel sail i ysgrifennu ANERCHIAD. (Gallwch ddychmygu eich bod yn wleidydd am y diwrnod!)

Beth yw MEINI PRAWF Anerchiad llwyddiannus?

Pa mor effeithiol oedd anerchiad Tegid yn y Fro?

TASG 2:

“Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.”

Ailadroddir y dyfyniad hwn dro ar ôl tro yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*.

Daw'r geiriau o'r gerdd **PRESELI** gan Waldo Williams.

Ar wefan CBAC mae pecyn astudio'r gerdd.

[Preseli \(Waldo Williams\) | Cymraeg Iaith | Dysgu Cyfunol](#)

Darllenwch y gerdd:

Preseli

Mur fy mebyd, Foel Drigarn, Carn Gyfrwy, Tal Mynydd,

Wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn.

A'm llawr o'r Witwg i'r Wern ac i lawr i'r Efail

Lle tasgodd y gwreichion sydd yn hŷn na harn.

Ac ar glosydd, ar aelwyd fy mhobl –

Hil y gwynt a'r glaw a'r niwl a'r gelaets a'r grug,

Yn ymgodymu â daear ac wybren ac yn cario
Ac yn estyn yr haul i'r plant, o'u plyg.

Cof ac arwydd, medel ar lethr eu cymydog.
Pedair gwanaf o'r ceirch yn cwympe i'w cais,
Ac un cwrs cyflym, ac wrth laesu eu cefnau
Chwarddiad cawraidd i'r cwmwl, un llef pedwar llais.

Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri, fy nghrefydd,
Unig falm i fyd, ei chenhadaeth, ei her,
Perl yr anfeidrol awr yn wystl gan amser,
Gobaith yr yrfa faith ar y drofa fer.

Hon oedd fy ffenestr, y cynaeafu a'r cneifio.
Mi welais drefn yn fy mhalas draw.
Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffenestr.

Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.

Waldo Williams

TRAFODWCH:

Beth yw'r bwystfil?

Beth yw'r baw?

Beth yw'r prif fygythiadau yng Nghymru heddiw?



CBAC TAG UG/SAFON UWCH MEWN

CYMRAEG CRAIDD

(l'w addysgu o Fedi 2027)

Bydd gwylio perfformiad o *Wythnos yng Nghymru Fydd* a chwblhau rhai o'r tasgau blaenorol yn cefnogi'r disgyblion i ateb gofynion:

- **UNED 1: FFILM A LLAFAREDD**

ble gofynnir i'r disgyblion ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o themau a'r syniadau allweddol a gyflwynir yn y ffilm Y SŴN.

- **UNED 2: CYMRU DDOE A HEDDIW**

2.1.2 Deall cyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg.

- **UNED 4: BYW DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG** (Arholiad llafar)

4.1.1 Cymru Gyfoes

ADRAN A: Mewn parau/ grwp o dri, bydd dysgwyr yn trafod cwestiwn gan yr arholwr yn seiliedig ar bwnc o un o'r tair thema eang sy'n gysylltiedig â Chymru gyfoes:

CYNEFIN

HUNANIAETH

DIWYLLIANT

4.1.2 Perspectif Personol

ADRAN B: Yn unigol, bydd dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth am:

“Beth mae'r Gymraeg yn ei olygu i mi?”

ac yn ateb cwestiynau am eu cyflwyniad.

Dylai dysgwyr allu cyfeirio at **destunau perthnasol** er mwyn egluro ac enghreifftio safbwyntiau personol.

Dylai dysgwyr allu ystyried sefyllfa bresennol y Gymraeg a beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg.

